

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Grosvenor/Bwrdd

Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth sydd nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Grosvenor yn 3 Grosvenor Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7YF, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 23 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Grosvenor yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Cofnodion clinigol rhagorol
- Roedd yr holl ystafelloedd triniaeth wedi'u cyfarparu'n dda, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithredu mecanwaith ffurfiol i gasglu safbwyntiau cleifion
- Dylai'r ystafell ddadheintio gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Dylid llunio polisi dadebru

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Grosvenor yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bae Colwyn. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd (un ohonynt ar hyfforddiant galwedigaethol), un hyleneidd, pum nyrs ddeintyddol a derbynnydd neilltuedig.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Grosvenor yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w chleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 33 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Hapus iawn gyda'r ddeintyddfa'

'Bodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth'

'Mae'r practis yn darparu gwasanaeth rhagorol bob amser'

'Staff ardderchog. Maent yn gyfeillgar, yn gwrtais, yn cynnig cysur ac yn gwrandao ar y claf. Mae'r derbynydd yn unigolyn rhagorol, cydwybodol sy'n gallu aml-dasgio ac yn barod iawn ei gymwynas. Does dim problemau gyda'r practis hwn. Dw i'n fwy na bodlon ei argymell i eraill'

'Daliwch ati gyda'r safon uchel'

'O'r radd flaenaf'

'Mae'n rhedeg yn esmwyth iawn, gyda staff cyfeillgar sy'n rhoi croeso mawr ichi bob amser'

'Mae'r practis deintyddol hwn yn wych'

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i

ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmegu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

Gofal ag urddas

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas. Fodd bynnag, fe wnaethom gynghori'r practis i ystyried newid drysau un o'r ystafelloedd triniaeth â phanel gwydr nad yw'n farugog i gynnal preifatrwydd, urddas a diogelwch cleifion ymhellach.

Gwybodaeth am gleifion

Roedd y practis yn darparu amrediad o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth unigol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Nid atebodd un claf. Fodd bynnag, dywedodd deg claf wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost y driniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion claf y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhai o'r staff yn y practis yn gallu cyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog. O'r 33 o holiaduron a gwblhawyd, dywedodd 31 claf eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Dywedodd pedwar claf eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac o'r rheiny, dywedodd dau eu bod weithiau wedi llwyddo i siarad Cymraeg â staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau'r tu allan i oriau pe bai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ar bwys y brif fynedfa ac fe'i rhoddir hefyd ar neges y peiriant ateb.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

O'r 33 o holiaduron a gwblhawyd, un claf yn unig a ddywedodd nad oedd y tîm deintyddol wedi rhoi digon o wybodaeth iddo ynghylch cadw ei geg a'i ddannedd yn iach, ac nad oedd yn cael ei gynnwys cymaint ag yr oedd yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am ei driniaeth unigol.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ystod pob ymweliad. Gwelsom fod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf, ynghyd â thystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu trafod â chleifion.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Lleolir y practis mewn adeilad ac iddo ddau lawr, gyda phob un o'r tair ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar y llawr daear. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lawr daear y practis ac roeddent yn gallu cael mynediad at y dderbynfa/man aros, cyfleusterau toiled a thair ystafell driniaeth.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG, a oedd yn cael ei arddangos yn glir yn y man aros ac ar amryw hysbysfyrddau o gwmpas y practis.

Gwelsom fod gan y practis ffeil gwynion neilltuedig ar waith gyda gweithdrefnau clir i ymdrin â chwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Fodd bynnag, gwnaethom gyngori'r practis i gyflwyno lòg er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dywedodd y practis wrthym nad oedd ganddynt system ffurfiol ar waith i gasglu safbwyntiau cleifion. Fodd bynnag, mae ganddynt flwch sylwadau yn y dderbynfa. Gwnaethom argymhell bod y practis yn datblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion roi eu hadborth. Gwnaethom hefyd gyngori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros/derbynfa i ddangos i gleifion ei fod yn gweithredu yn dilyn adborth a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cyflwyno lòg ar gyfer y ffeil gwynion.

Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ar y llawr daear, a dau doiled ar gyfer staff ar y llawr cyntaf. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân. Fodd bynnag, nid oedd biniau gwastraff glanweithiol yng nghyfleusterau toiled y staff. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i newid unrhyw finiau yn y toiledau am finiau a weithredir â throed.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal mewn modd priodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniau'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff arall wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, ac i newid unrhyw finiau am finiau a weithredir â throed.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio.

Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella cyflwr cyffredinol yr ystafell ddadheintio. Roedd yr ystafell ddadheintio wedi'i haddurno â phapur wal 'sglodion pren' nad yw'n hawdd ei lanhau. Gwelwyd hefyd fod paent a phapur yn dod i ffwrdd o gwmpas y ffenest a'r byrddau sgyrtin. Er bod teils ar y llawr roedd arwyddion gweladwy o ddifrod i rai o'r teils a'r growthio a oedd yn caniatáu i falurion gael eu trapio. Roedd rhai darnau o'r wynebau gwaith wedi cael eu difrodi a gwelsom dwll yn y wal ar lefel y llawr.

Nodwyd bod proses lanhau'r practis a ddefnyddir cyn sterileiddio'n cael ei chynnal â llaw. Nid oes gan beiriant awtoclaf y practis gofnodydd data nac argraffydd, ac nid yw llog o bob cylchred yn cael ei gynnal. Gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i logio pob cylchred a chadw'r cofnodion am o leiaf dwy flynedd, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Hysbysodd y practis ni y byddai llog yn cael ei roi ar waith. Roedd ganddynt beiriant awtoclaf aerglos ond nid oedd hwn yn cael ei ddefnyddio eto. Fe'n hysbyswyd ni bod cynlluniau ar waith i ddilysu'r peiriant awtoclaf aerglos yn barod i'w ddefnyddio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Fe'n hysbyswyd ni bod trefniadau ar waith i un o'r nyrsys deintyddol adnewyddu ei hyfforddiant mewn rheoli heintiau. Gwnaethom nodi hefyd mai'r derbynnydd a oedd yn gyfrifol am y gwaith o lanhau'r practis yn gyffredinol. Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai'r derbynnydd gael ei hyfforddi mewn rheoli heintiau os yw'r dyletswyddau'n cynnwys glanhau cyfleusterau clinigol.

Nodwyd hefyd fod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis.

Nid oedd y gwaith o fflysio allfeydd a ddefnyddir yn achlysurol am *legionella* yn cael ei gofnodi, a gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno lòg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid gwella cyflwr cyffredinol yr ystafell ddadheintio trwy wneud y canlynol:

- Ailaddurno'r waliau ac atgyweirio unrhyw deils llawr a growtio sydd wedi cael eu difrodi.
- Atgyweirio'r twll yn y wal ac unrhyw ddifrod i arwynebau gwaith.

Cyflwyno lòg a chofnodi pob cylchred yr awtoclaf.

Sicrhau bod y derbynnydd yn cael ei hyfforddi mewn rheoli heintiau os yw'n glanhau cyfleusterau clinigol.

Cyflwyno lòg *legionella* i gofnodi'r gwaith o fflysio allfeydd.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd gan y practis bolisi dadebru neilltuedig ar waith. Fodd bynnag, roedd ganddynt weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ar ffurf siart llif a chopi o gyfarwyddyd y GIG. Gwnaethom argymhell bod polisi dadebru neilltuedig yn cael ei ddatblygu sy'n cynnwys yr holl weithdrefnau lleol ar gyfer y practis.

Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cardio-

pwlmonaidd a gwnaethom hysbysu'r practis y dylai'r derbynnydd gael ei hyfforddi hefyd.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwymo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio mewn ystafell wedi'i chloi dros nos, a gwnaethom argymhell y dylai padiau presgripsiwn gael eu storio'n ddiogel mewn drôr/cabinet dan glo un unol â chanllawiau'r GIG.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid llunio polisi dadebru.

Sicrhau bod y derbynnydd yn derbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd.

Dylid storio padiau presgripsiwn yn ddiogel mewn drôr/cabinet dan glo.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl ddeintyddion wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd ni gan y practis nad oedd yr holl nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ac roedd trefniadau ar waith i bedair nyrs a'r hylenydd gael eu hyfforddi. Gwnaethom nodi hefyd fod angen i un nyrs ddeintyddol dderbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Gwnaethom argymhell hefyd fod y derbynnydd yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol a bod yr holl ddeintyddion yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dim ond deintyddion sydd wedi cofrestru gydag AGIC sy'n gorfod meddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf). Fodd bynnag, hysbysodd y practis ni fod trefniadau ar waith i adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff, sydd bellach yn cael ei ystyried yn arfer da

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nodwyd bod y drws rhwng ystafell driniaeth tri a'r gegin yn fudr o gwmpas yr ymylon a'r ddolen.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd angen addasu'r rheolau pelydr-X ar gyfer ystafell driniaeth tri.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol o ddelweddau pelydr-X, a oedd hefyd yn cynnwys canlyniadau, myfyrdodau, camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod y drws rhwng ystafell driniaeth tri a'r gegin yn cael ei lanhau un unol â'r amserlen lanhau.

Dylid addasu rheolau pelydr-X ar gyfer ystafell driniaeth tri.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles o safon uchel ar gyfer cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau'n cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a chynlluniau triniaeth yn cael eu rhoi i gleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Deintyddfa Grosvenor yn eiddo i un deintydd, sydd hefyd yn rheoli'r ddeintyddfa, ac mae'n derbyn cymorth gan dîm o ddeintyddion a nyrsys deintyddol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd staff eu bod yn teimlo bod y cyfathrebu o fewn y practis yn dda a'u bod yn gallu trafod unrhyw broblemau'n uniongyrchol â'r prif ddeintydd.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff ac ar y cyfan roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, nid oedd yr holl dystysgrifau hyfforddiant yn hawdd eu cyrraedd ar gyfer holl aelodau'r tîm. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol a'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol yn cael eu cadw mewn ffeiliau staff unigol, a chytunodd y practis i wneud hyn. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd a gwnaethom argymhell bod y practis yn cadw cofnodion ffurfiol o'r cyfarfodydd hyn a chynnwys rhestr o'r rhai sy'n bresennol.

Roedd yr holl ddeintyddion cymwysedig yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos mewn lle amlwg y tu ôl i'r dderbynfa un unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd tystysgrif un o'r deintyddion yn cynnwys y manylion practis anghywir. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt ddyroddi copi o'r dystysgrif.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl ddeintyddion a nyrsys deintyddol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau adolygu a/neu nid oedd y fersiynau'n cael eu rheoli. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu reolaeth dros wahanol fersiynau, ac y dylai sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Sicrhau bod tystysgrif cofrestriad AGIC yn cael ei harddangos ar gyfer un o'r deintyddion.

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff.

4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#)<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made> [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Grosvenor

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chyflwynwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Grosvenor

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Cyflwyno lòg ar gyfer y ffeil gwynion.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Mae bellach gennym brotocol ar gyfer logio cwynion.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau
Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld.		Byddwn yn cwblhau holiadur ar yr un adeg ag y mae dogfen DF1 yn cael ei chwblhau. Bydd y fformat yn debyg er mwyn cynnwys pob perfformiwr.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwy o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Fe'i harchebwyd ac rydym wedi'i dderbyn.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).				
Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff a bod unrhyw finiau'n cael eu newid am finiau a weithredir â throed.		Fe'u harchebwyd ac rydym wedi'u derbyn gan Initial Medical – adnewyddwyd y contract.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau
Dylid gwella cyflwr cyffredinol yr ystafell ddadheintio trwy wneud y canlynol: Ailaddurno'r waliau ac atgyweirio unrhyw deils llawr a growtio sydd wedi cael eu difrodi. Atgyweirio'r twll yn y wal ac unrhyw ddifrod i arwynebau gwaith.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Derbyniwyd dyfynbrisiau gan dri chwmni lleol ar gyfer y gwaith, a fydd yn cael ei gynnal yn unol â'r adroddiad.	Donna Chatham	31 wythnos l'w gwblhau Erbyn 12/08/17
Cyflwyno lòg a chofnodi pob cylchred yr awtoclaf.		Mae peiriant awtoclaf Prestige gyda chofnodydd data mewnol wedi cael ei wasanaethu ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n llawn amser.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau
Sicrhau bod y derbynnydd yn cael ei hyfforddi mewn rheoli heintiau os yw'n glanhau		Nid yw'r derbynnydd bellach yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfleusterau clinigol.				
Cyflwyno lög legionella i gofnodi'r gwaith o fflysio allfeydd.		Gwneir hyn bob dydd gyda rhestr wirio ar gyfer dechrau a diwedd y dydd.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau
Dylid llunio polisi dadebru.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae polisi generig bellach wedi cael ei addasu i safle'r ddeintyddfa.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau
Sicrhau bod y derbynnydd yn derbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd.		Mae hi wedi cael ei chofrestru ar gyfer cwrs dadebru cardio-pwlmonaidd a gynhelir gan Adran Ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd yng Nglan Clwyd – Tachwedd 2017.	Raj Jotangia	Cyn gynted ag y bo modd
Dylid storio padiau presgripsiwn yn ddiogel mewn drôr/cabinet wedi'i gloi.		Maent i gyd yn cael eu storio mewn drôr o dan glo mewn swyddfa o dan glo.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau
Sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl	Bydd yr holl staff nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant mewnol yn cael eu cofrestru ar gyfer cwrs nesaf Adran Ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd.	Raj Jotangia	Rydym yn aros am y dyddiad nesaf.
Sicrhau bod y drws rhwng ystafell driniaeth tri a'r gegin yn cael ei lanhau yn unol â'r amserlen lanhau.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig	Mae'r drefn ar gyfer diwedd y dydd yn cynnwys glanhau'r drws.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid addasu rheolau pelydr-X ar gyfer ystafell driniaeth tri.	meddygol	Mae mesurau lleol wedi cael eu gweithredu ac mae rheolau lleol wedi cael eu diwygio yn ôl yr angen.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.	7.1 Gweithlu	Mae Donna Chatham, y rheolwr practis newydd, yn gwneud cofnodion ar gyfer pob cyfarfod mewn llyfr trosglwyddo neilltuedig y mae gan bob aelod o'r tîm fynediad ato.	Donna Chatham	Wedi'i gwblhau
Sicrhau bod tystysgrif cofrestriad AGIC gyfredol yn cael ei harddangos ar gyfer un o'r deintyddion.		Cafodd y ffurflenni eu cwblhau a'u hanfon at AGIC a gwnaed taliad.	Raj Jotangia	Rydym yn aros iddynt gyrraedd.
Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff.		Mae hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn, gyda phopeth yn cael ei logio mewn mynegai, gan nodi pan fydd angen adolygiadau. Mae staff bellach wedi llofnodi'r holl bolisïau.	Raj Jotangia	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: